# Proffil y Cyfnod Sylfaen

## Cwestiynau cyffredin

### 1. Beth yw Proffil y Cyfnod Sylfaen?

Offeryn neu ddull asesu yw Proffil y Cyfnod Sylfaen (y Proffil) sy'n alinio asesu ar gyrraedd y dosbarth Derbyn hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Proffil wedi ei ddatblygu fel dull asesu cenedlaethol ar gyfer pob plentyn i sefydlu llinell sylfaen yn y chwe wythnos gyntaf ar ôl cyrraedd y Flwyddyn Derbyn a chafodd ei wneud yn statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Mae'n asesu gallu a datblygiad plant mewn pedwar Maes Dysgu:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Datblygiad Corfforol.

Mae gwybodaeth asesu ar ffurf arsylwadau ac asesiadau ffurfiannol eraill yn cael ei chasglu drwy weithgareddau cyfannol ar draws saith Maes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen (chwech mewn lleoliadau/ysgolion cyfrwng Cymraeg), drwy ddarpariaeth barhaus wedi'i chyfoethogi ac iddi ffocws.

### 2. Sut olwg sydd ar Broffil y Cyfnod Sylfaen?

Mae dwy ran i'r Proffil - Proffil Cryno a Phroffil Llawn. Mae'r ddau'n cefnogi'r gwaith o asesu dysgu a datblygiad plant yn erbyn cyfres o fframiau sgiliau. Rhoddir enghreifftiau o'r fframiau sgiliau hyn mewn canllawiau.

Mae'r Proffil Cryno wedi'i ddylunio i gael ei ddefnyddio fel asesiad sylfaenol yn y Flwyddyn Derbyn (hy y flwyddyn ysgol pryd y bydd plentyn yn 5 oed). Mae'n defnyddio set benodol o fframiau sgiliau.  Ceir drwy hyn wybodaeth ddefnyddiol i gefnogi dysgu cynnar ac i ganfod unrhyw oedi posibl o ran datblygiad neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r sgiliau wedi'u dewis a'u dethol yn fwriadol gan eu bod hefyd yn hawdd eu harsylwi yn y chwe wythnos gyntaf ar ôl i blentyn ddechrau mewn lleoliad/ysgol.

Mae'r Proffil Llawn wedi'i ddylunio i gefnogi asesu drwy gydol y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Blwyddyn 2. Mae'r Proffil Llawn yn cynnwys ystod ehangach o sgiliau i gynorthwyo asesu wrth i blentyn symud drwy'r Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn rhoi darlun llawnach o ddatblygiad plentyn. Efallai y caiff ei ddefnyddio, hefyd, i ddarparu gwybodaeth fanylach ar blant y mae pryder amdanynt, beth bynnag fo'u hoedran.

## 3. Beth yw gofynion asesu statudol y Cyfnod Sylfaen?

**Cafodd defnyddio'r Proffil Cryno ar gyfer y llinell sylfaen** yn ystod chwe wythnos gyntaf plentyn yn y Flwyddyn Derbyn ei wneud yn ofyniad statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Mae'n rhoi'r deilliannau ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol; a Datblygiad Corfforol. Mae gofyn i leoliadau/ysgolion gofnodi'r deilliannau ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu hyn gan ddefnyddio'r dulliau cofnodi data arferol. Cânt eu casglu gan Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2016 yn rhan o'r broses Casglu Data Cenedlaethol.

Bydd gofyn i ysgolion **asesu plant Blwyddyn 2 gan ddefnyddio deilliannau'r Cyfnod Sylfaen** ar ddiwedd tymor yr haf fel y gwneir ar hyn o bryd. Ni fydd defnyddio'r Proffil ar gyfer yr asesiadau athrawon hyn yn statudol ac ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol tan 2018 gan fod y Proffil ar gyfer y Meysydd Dysgu hyn yn seiliedig ar y deilliannau diwygiedig (gweler y paragraff nesaf a Chwestiwn 5 am ragor o fanylion). Gall, fodd bynnag, gael ei ddefnyddio ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a Datblygiad Corfforol ac efallai y byddai'n syniad da ei ddefnyddio gan ei fod yn alinio'r deilliannau o'r llinell sylfaen hyd at ddiwedd y cyfnod.

Yn 2016 a 2017, caiff asesiadau diwedd y cyfnod ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol ym Mlwyddyn 2 eu cynnal yn erbyn y deilliannau cyfredol (y deilliannau gwreiddiol). O haf 2018 caiff asesiadau diwedd y cyfnod ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu cynnal yn erbyn y deilliannau diwygiedig yn unol â'r diwygiadau i'r Meysydd Dysgu a ddaeth yn statudol o fis Medi 2015.

## 4. Os byddaf yn cynnal mwy nag un asesiad yn ystod chwe wythnos gyntaf plentyn yn y Flwyddyn Derbyn, pa asesiad y dylwn ei ddefnyddio fel yr asesiad sylfaenol statudol?

Dylai'r asesiad sylfaenol gael ei seilio ar arsylwadau a wnaed yn ystod y chwe wythnos. Dylech felly ddefnyddio eich crebwyll wrth benderfynu pa ddeilliant sydd fwyaf priodol ar gyfer plentyn os bydd mwy nag un asesiad wedi'i gofnodi yn ystod yr adeg honno.

## 5. Pam nad yw plant Blwyddyn 2 yn cael eu hasesu yn erbyn y deilliannau diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol tan haf 2018?

Cafodd y Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu gwneud yn statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Mae'r rhain wedi'u diwygio i gynnwys ac i alinio â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Pan gyflwynwyd y FfLlRh, fe wnaeth Llywodraeth Cymru yn fwriadol godi'r bar o ran y disgwyliadau o ran beth y dylai dysgwyr allu ei wneud ar **bob** cam o'u haddysg. Mae'r Meysydd Dysgu diwygiedig, a rhaglenni

astudio perthynol ar gyfer y cyfnodau allweddol eraill, yn adlewyrchu'r disgwyliadau uwch hynny.

Mae'n synhwyrol cyflwyno deilliannau diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen fel eu bod wedi'u halinio â'r datganiadau sgiliau o fewn y Maes Dysgu. Bydd hyn yn golygu y bydd cyflawni Deilliant 5 y

Cyfnod Sylfaen yn fwy o her yn gyffredinol o dan y Meysydd Dysgu diwygiedig gan fod y disgwyliadau'n uwch ar gyfer rhai sgiliau.

Mae'n deg bod plant yn cael y cyfle i gael eu dysgu'n unol â'r Meysydd Dysgu diwygiedig  ar gyfer y Cyfnod Sylfaen cyfan cyn iddynt gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig. Dyna pam y mae'r defnydd o'r deilliannau diwygiedig ar gyfer asesiadau diwedd y cyfnod sylfaen ym Mlwyddyn 2 yn cael eu cyflwyno fesul cam. Golyga hyn y bydd yr asesiad diwedd cyfnod yn cael ei gynnal yn unol â'r deilliannau diwygiedig am y tro cyntaf yn nhymor yr haf 2018. Tan hynny, caiff yr asesiadau diwedd cyfnod eu cynnal yn unol â'r deilliannau gwreiddiol.

Mae'r ffordd hon o weithio yn gyson â'r hyn a wneir ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 lle ni fydd perfformiad ysgolion yn cael ei fesur yn erbyn y disgwyliadau uwch tan dymor yr haf 2018.

## 6. Pam mai dim ond ar gyfer asesu sylfaenol y mae Proffil y Cyfnod Sylfaen yn statudol?

Mae'r galw am ffordd genedlaethol a chyson o asesu plant yn y Cyfnod Sylfaen yn amlwg, yn enwedig o ran asesu sylfaenol. Am y rheswm hwn, roedd hi'n benderfyniad hawdd gwneud y defnydd o'r Proffil Cryno yn statudol ar ddechrau'r Flwyddyn Derbyn.

Fodd bynnag, byddai gwneud y Proffil yn statudol cyn i blant gael eu derbyn i'r ysgol yn dipyn anoddach gan nad yw pob plentyn yn mynychu darpariaeth cyn-ysgol.

Ysgolion sydd i benderfynu sut maent am fonitro cynnydd ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dull neu offeryn i ymarferwyr ei ddefnyddio i asesu plant yn y Cyfnod Sylfaen.

## 7. Sut y dylai disgyblion sy'n symud o ysgolion eraill yng Nghymru gael eu hasesu?

Mae dyletswydd ar yr ysgol y mae'r plentyn yn symud ohoni drosglwyddo cofnod addysgol y plentyn i'r ysgol newydd. Gall ysgolion ddewis trosglwyddo gwybodaeth am asesiadau sylfaenol drwy ffeiliau trosglwyddo cyffredin (CTF). Mae hyn yn opsiwn os yw'r ddwy ysgol yn defnyddio System Gwybodaeth Reoli (MIS) a'u bod wedi'u gosod er mwyn anfon a derbyn gwybodaeth am asesiadau sylfaenol drwy ffeiliau trosglwyddo cyffredin. Fel arall, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ysgolion benderfynu ar y cyd â'u hawdurdod lleol ar y ffordd fwyaf priodol o drosglwyddo'r wybodaeth.

**8. Sut y dylai disgyblion sy'n dechrau ar gwricwlwm Cymru ar ôl symud o wledydd eraill gael eu hasesu?**

Dylai plentyn sy'n dechrau Blwyddyn Derbyn ar ôl symud o ysgol y tu allan i Gymru gael ei drin fel petai'n newydd i'r ysgol a dylid cynnal asesiad sylfaenol statudol ar ei gyfer o fewn y chwe wythnos gyntaf.

**9. Sut mae Proffil y Cyfnod Sylfaen yn alinio â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)?**

Mae elfennau'r Meysydd Dysgu Sgiliau Llythrennedd, Iaith a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Proffil wedi'u datblygu gan ddefnyddio'r Meysydd Dysgu diwygiedig a gaiff eu cyflwyno ym mis Medi 2015. Mae'r deilliannau diwygiedig cysylltiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, a gyhoeddwyd yn ystod tymor yr haf 2015, hefyd wedi cael eu hadlewyrchu yn y Proffil. Bydd hyn yn galluogi defnyddio'r Proffil i olrhain cynnydd yn erbyn y FfLlRh drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

**10. A yw'r asesiadau'n alinio â'r Meysydd Dysgu a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen?**

Ydyn wir, mae'r fframiau sgiliau o fewn y Proffil wedi'u datblygu i adlewyrchu'r sgiliau a'r ystod o brofiadau fel y'u mynegir yn y Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn ogystal â'r deilliannau diwygiedig.

Mae'r fframiau sgiliau ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, a Datblygiad Corfforol wedi'u datblygu i alinio â'r sgiliau, yr ystod o brofiadau a'r deilliannau gwreiddiol fel y'u cyhoeddwyd yn y ddogfen ddiwygiedig *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (2015).

**11. A yw Proffil y Cyfnod Sylfaen wedi arwain at fwy o waith i ymarferwyr?**

Mae'r Proffil wedi ei ddylunio mewn ffordd sy'n caniatáu i arsylwadau ac asesiadau ffurfiannol gael eu defnyddio i gefnogi dyfarniadau ac i helpu i olrhain cynnydd plant. Mae hyn yn cefnogi addysgeg y Cyfnod Sylfaen a dylai ymarferwyr eisoes fod wrthi'n casglu gwybodaeth yn y modd hwn, felly nid oes disgwyl i'r llwyth gwaith gynyddu. Y bwriad, drwy ddarparu ffordd genedlaethol o weithio, yw lleihau'r baich sydd ynghlwm wrth asesu drwy gael gwared ar yr angen i lunio neu ddatblygu ffyrdd lleol o weithio

Dangosodd y treial o'r Proffil Cryno, a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2015, fod bron dwy ran o dair o'r sawl a gymerodd ran yn fodlon. Dim ond un o bob saith fynegodd bryderon. At hynny, mae llawer o ysgolion yn defnyddio offerynnau neu ddulliau electronig i gofnodi gwybodaeth. Bydd hyn yn lleihau'r llwyth gwaith o ran adrodd o'i gymharu â'r dull ar bapur a ddefnyddiwyd yn y treial.

## 12. A yw Proffil y Cyfnod Sylfaen yr un fath â Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar?

Yn fyr, nac ydy. Dim ond un elfen yw'r Proffil o raglen waith ehangach gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar. Wrth ddatblygu Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar ein nod yw dod â gwybodaeth a ffyrdd o weithio ynghyd o bob sector er mwyn datblygu un dull o asesu plant o'u genedigaeth nes iddynt gyrraedd saith oed, a rhoi'r wybodaeth ofynnol i ymarferwyr er mwyn iddynt allu cefnogi datblygiad a dysgu'r plant. Bydd y proffil yn ymdrin â'r asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen a bydd cysylltiad rhwng y rhain â'r asesiadau a wneir ar gyfer plant 0–3 oed, er enghraifft asesiadau gan ymwelwyr iechyd ac ymarferwyr Dechrau'n Deg, yn ogystal â gwybodaeth arall sydd ar gael am blant tair i saith oed, megis gwybodaeth gan nyrsys ysgol.

## 13. Pam y mae Datblygiad Corfforol yn rhan o'r Proffil Cryno?

Mae asesu datblygiad corfforol plant yn hanfodol er mwyn pennu unrhyw oedi posibl o ran datblygu a allai effeithio ar eu dysgu a'u datblygiad cyffredinol. Mae hefyd yn rhan bwysig o gysylltu gwybodaeth asesu cyn-ysgol i'r wybodaeth a gesglir drwy'r Proffil fel rhan o'r Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar.

## 14. Sut bydd Proffil y Cyfnod Sylfaen o fudd i blant a hefyd i rieni/gofalwyr?

Mae'r Proffil yn cefnogi trefniadau pontio effeithiol ac yn galluogi lleoliadau ac ysgolion i fonitro, olrhain a chefnogi dysgu a datblygiad plant o'r adeg y byddant yn cychwyn ar y Cyfnod Sylfaen tan ei ddiwedd.

Gellir olrhain cynnydd plant a gellir rhoi ymyriadau cynnar ar waith ar gyfer y plant hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt neu y mae angen iddynt ymarfer sgiliau neilltuol. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu o gymorth i ymarferwyr wrth iddynt drafod datblygiad plentyn gyda'i rieni/gofalwyr.

## 15. Sut bydd Proffil y Cyfnod Sylfaen o fudd i leoliadau/ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru?

Bydd y Proffil yn help o ran casglu a rhannu gwybodaeth mewn ffordd gyson, gan gynnwys data am gynnydd a fydd yn ategu polisi a phenderfyniadau gweithredol ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd y Proffil yn cefnogi ac yn darparu tystiolaeth ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod a bydd hynny yn ei dro yn cryfhau'r broses bontio i Gyfnod Allweddol 2.

## 16. Sut ydyn ni wedi sicrhau bod Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ateb y gofyn?

Treialwyd y Proffil gyda rhyw 200 o leoliadau ac ysgolion ac 8,000 o ddysgwyr o fis Ionawr i fis Mawrth 2015. Edrychodd y treial nid yn unig ar y broses o ddefnyddio'r Proffil ond hefyd ar addasrwydd y sgiliau sydd yn y Proffil Cryno a'r Proffil Llawn. Yn gyffredinol roedd yr adborth yn gadarnhaol ac roedd ymarferwyr yn cydnabod pa mor ddefnyddiol oedd y rhan fwyaf o'r fframiau sgiliau a sut maent yn cyd-fynd â'i gilydd.

Mae sylwadau am feysydd penodol i'w newid wedi eu hystyried wrth baratoi'r fersiwn derfynol o'r Proffil.

Mae adolygiad pellach ar y defnydd cychwynnol a wnaed o'r Proffil ar y gweill. Bydd hefyd yn cynnwys casglu adborth gan sampl mawr o ddefnyddwyr a dehongli'r data dechreuol a gyflwynwyd adeg yr haf 2016.

### 17. Beth a ddysgwyd o'r prosiect blaenorol i gyflwyno'r Proffil Asesu Datblygiad Plentyn?

Roedd Llywodraeth Cymru'n ymwybodol iawn o'r angen i ddysgu gwersi o'r Proffil Asesu Datblygiad Plentyn. Defnyddiwyd yr adolygiad annibynnol o'r Proffil Asesu Datblygiad Plentyn (*Adolygiad (sydd heb ei ariannu) Annibynnol a Chyflym o'r Proffil Asesu Datblygiad Plentyn ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru* (ar gael yn Saesneg yn unig), 2012) a gomisiynwyd gennym i sicrhau nad yw'r Proffil yn wynebu'r un anawsterau. Yn arbennig, roeddem yn ymwybodol iawn y dylid ymdrin mewn ffordd gyson ag asesu a sgorio, na ddylai'r Proffil fod yn rhy feichus, ac y dylid sicrhau cyswllt clir rhwng asesiadau sylfaenol ac asesiadau diwedd cyfnod.

### 18. Pwy sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Proffil y Cyfnod Sylfaen?

Contractwyr Llywodraeth Cymru (GL Assessment ac Incerts) sydd wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith datblygu ar y Proffil.

Goruchwyliwyd y gwaith o ddatblygu'r Proffil gan grŵp gorchwyl a gorffen ac ynddo gynrychiolwyr o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, awdurdodau lleol, y sector gofal plant, y proffesiwn addysgu gan gynnwys penaethiaid, Dechrau'n Deg, a lleoliadau Cyfnod Sylfaen a gynhelir a rhai nas cynhelir. Mae'r grŵp wedi adolygu ac edrych yn feirniadol ar y Proffil a'r deunyddiau ategol drwy gydol y cyfnod datblygu ac mae wedi ystyried y diwygiadau sydd wedi'u gwneud yn sgil y treial (gweler cwestiwn 16).

Mae gwaith pellach wedi'i wneud hefyd gydag arbenigwyr ar agweddau penodol ar y Proffil megis datblygu iaith, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), anawsterau dysgu penodol a datblygiad corfforol.

### 19. Pa hyfforddiant oedd ar gael i ymarferwyr?

Cafodd hyfforddiant llawn ar gyfer cyflwyno'r Proffil ei gynnal yn nhymor yr haf 2015, gyda chymorth swyddogion hyfforddiant a chymorth y Cyfnod Sylfaen. Dylai lleoliadau ac ysgolion fod wedi cael gwybod am sesiynau hyfforddi gan eu consortia rhanbarthol neu eu hawdurdod lleol.

### 20. Pa ganllawiau sydd ar gael i ymarferwyr?

Mae llawlyfr wedi'i ddatblygu a'i brofi fel rhan o'r treial. Cafodd ei ddefnyddio wrth ddarparu hyfforddiant yn nhymor yr haf 2015. Mae ar gael hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â gwybodaeth ategol arall.

### 21. Alla i gael copi printiedig o lawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen?

Nid oes modd i Lywodraeth Cymru ddarparu fersiynau printiedig o'r llawlyfr. Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi yn y cyfrwng digidol ac wedi mabwysiadu fersiynau digidol fel y drefn arferol gan y gall cynhyrchu copïau fod yn ddrud, heb sicrhau'r defnydd gorau o arian y cyhoedd.

### 22. Sut caiff Proffil y Cyfnod Sylfaen ei gofnodi ac a fydd ar bapur neu'n electronig?

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflenwyr systemau rheoli gwybodaeth ysgolion cyfredol er mwyn i'r systemau gael eu diweddaru i gofnodi gwybodaeth ar y Proffil. Cydnabyddir na fydd gan bob lleoliad ac ysgol systemau rheoli gwybodaeth na dulliau olrhain electronig. Mae taenlen electronig a ffurflenni papur ar gael i'r rheiny sydd am ddefnyddio eu systemau cofnodi eu hunain i gofnodi asesiadau.

### 23. A yw Proffil y Cyfnod Sylfaen wedi'i alinio ag unrhyw systemau meddalwedd a ddefnyddir i olrhain cynnydd dysgwyr yng Nghymru?

Nac ydy. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y Proffil i gyflenwyr meddalwedd olrhain a ddefnyddir yn ysgolion cynradd Cymru er mwyn iddynt allu addasu eu pecynnau i gynnwys y Proffil, ac alinio ag ef.

### 24. Sut bydd Adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru'n effeithio ar Broffil y Cyfnod Sylfaen ?

Mae'r Athro Donaldson wedi arwain adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Cyhoeddwyd ei adroddiad, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, ym mis Chwefror 2015 (www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/?lang=cy) a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb iddo ym mis Hydref 2015.

Bydd yn cymryd cryn amser i weithredu unrhyw newidiadau yn sgil adolygiad yr Athro Donaldson ac, o ystyried yr angen i barhau i ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a'r brys sydd yna i godi safonau llythrennedd a rhifedd ac ateb y galw gan ysgolion am linell sylfaen genedlaethol, rydym wedi penderfynu gweithredu'r newidiadau i'r Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol) a'r rhaglenni astudio (Cymraeg, Saesneg a mathemateg) diwygiedig fel rhan o gam 1 o'r adolygiad o'r cwricwlwm. Caiff y diwygiadau hyn eu hadlewyrchu yn y Proffil.

### 25. A fydd asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cymedroli i sicrhau cysondeb ar draws Cymru?

Dylai'r canllawiau ychwanegol a ddarperir gan y Proffil o ran asesu yn erbyn deilliannau helpu i sicrhau cysondeb o ran dyfarnu a chymedroli. Bydd Llywodraeth

Cymru'n asesu cysondeb y defnydd a wneir o'r Proffil yn rhan o'i hadolygiad ar gyfnod cychwynnol cyflwyno'r Proffil.

### 26. A fydd Proffil y Cyfnod Sylfaen yn darparu gwybodaeth am y cynnydd a'r gwerth a ychwanegwyd?

Gan fod y Proffil yn defnyddio'r un raddfa fesur ag ar gyfer asesiadau derbyn a diwedd cyfnod, hynny yw deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, bydd yn bosibl cofnodi, olrhain a monitro cynnydd plant o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen hyd y diwedd.

### 27. A fydd plant yn cael eu hasesu yn iaith addysgu'r lleoliad neu'r ysgol ynteu yn iaith y cartref/iaith gyntaf y plentyn?

Bydd yr asesiadau'n cael eu cynnal yn iaith y lleoliad neu'r ysgol.

### 28. Sut bydd yr asesiadau diwedd cyfnod yn cael eu cysoni â Chyfnod Allweddol 2?

I bob pwrpas, bydd y sefyllfa'n parhau fel y mae; hynny yw yn gyffredinol mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn croesgyfeirio â lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes aliniad uniongyrchol â'r lefelau a ddefnyddir yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Nid oedd gwneud y newid sylweddol hwn yn gwneud synnwyr ar yr adeg hon gan y bydd yr ymagwedd asesu gyfan yn cael ei hystyried yn fanwl fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Donaldson.

### 29. A oes modd defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

Mae'r Proffil wedi'i gynllunio i gwmpasu pob plentyn ac mae'n cefnogi'r gwaith o ganfod oedi posibl o ran datblygiad neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, ni fwriadwyd i'r Proffil fod yn ddigon manwl i roi asesiad llawn o natur anghenion dysgu ychwanegol plant. Bydd angen i ymarferwyr ddefnyddio'r asesiadau priodol sydd wedi'u bwriadu i'r diben penodol hwnnw, er enghraifft Ar Drywydd Dysgu ar gyfer plant sydd â'r anawsterau dysgu mwyaf dwys ac astrus, cael cyngor gan gydgysylltwyr anghenion dysgu ychwanegol/cydgysylltwyr anghenion addysgol arbennig, ac, os oes angen, cyfeirio plant at y bobl broffesiynol briodol, gyda chymorth a chaniatâd rhieni a gofalwyr.

### 30. Â phwy y gall ymarferwyr gysylltu os nad yw eu cwestiynau wedi'u hateb yma?

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â'r swyddog arweiniol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn yr awdurdod lleol priodol neu'r consortiwm priodol. Os na fydd modd iddynt ateb eich ymholiadau gallwch anfon e-bost i Dîm Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru: earlyyears@cymru.gsi.gov.uk.